# Agenda - Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 & 2 Senedd**

Dyddiad: Dydd Iau, 30 Mawrth 2023

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Helen Finlayson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddIechyd@senedd.cymru

## Rhag-gyfarfod preifat (09.00 - 09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): Sesiwn dystiolaeth gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

(09.30-11.00) (Tudalennau 1 - 40)

Eluned Morgan AS, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dafydd Evans, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gwyddorau Bywyd ac Arloesedd, Llywodraeth Cymru

Mari Williams, Uwch Gyfreithiwr y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

Nick Lambert, Uwch Gyfreithiwr y Llywodraeth, Llywodraeth Cymru

Leanne Roberts, Pennaeth Polisi Diwygio Caffael, Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

Papur briffio gan Ymchwil y Senedd

Papur 1 - Llywodraeth Cymru

## 3 Papurau i'w nodi

(11.00)

### 3.1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24: Ymateb Llywodraeth Cymru

(Tudalennau 41 - 50)

**3.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24**

(Tudalennau 51 - 52)

**3.3 Llythyr gan y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ynghylch yr ymchwiliad i gyfiawnder data: defnyddio data personol yn y GIG yng Nghymru**

(Tudalennau 53 - 54)

**3.4 Llythyr at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch gwasanaethau endosgopi: ymchwiliad dilynol**

(Tudalennau 55 - 62)

**3.5 Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ynghylch Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

(Tudalennau 63 - 64)

**3.6 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

(Tudalennau 65 - 70)

**3.7 Llythyr at Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol Llywodraeth y DU ynghylch Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

(Tudalennau 71 - 72)

**3.8 Llythyr gan Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Llywodraeth y DU ynghylch Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)**

(Tudalen 73)

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn, ac o Eitem 1 i Eitem 3 ar agenda'r cyfarfod a gaiff ei gynnal ddydd Iau, 27 Ebrill 2023

(11.00)

## 5 Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru): materion o bwys

(11.00-11.45)

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24: Ymateb Llywodraeth Cymru

(11.45-12.00) (Tudalennau 74 - 81)

Papur 2 - Briff ymchwil

## 7 Blaenraglen Waith

(12.00-12.15) (Tudalennau 82 - 96)

Papur 3 - Blaenraglen waith

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, y Pwyllgor Iechyd a Gofal cymdeithasol

SeneddIechyd@senedd.cymru

17 Mawrth 2023

Annwyl Russell

Diolch ichi am eich llythyr a'r cwestiynau a gyflwynwyd gan eich Pwyllgor yn ymwneud â Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru). Rwyf yn falch o ddarparu fy ymateb a atodir yn Atodiad A.

Yn eich llythyr, fe wnaethoch gynnig y cyfle hefyd i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig atodol mewn perthynas â'r Bil. O'r herwydd, rwyf wedi darparu gwybodaeth ychwanegol am gydweithio â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gefnogi'r Pwyllgor gyda'r gwaith craffu ar y Bil.

Hyderaf fod yr ymatebion yn Atodiad A yn ateb eich cwestiynau. Er hynny, os oes unrhyw gwestiynau neu feysydd pellach y mae angen eglurhad yn eu cylch, mae fy swyddogion a minnau'n hapus i ddarparu gwybodaeth bellach yn ysgrifenedig, neu fel rhan o sesiwn briffio technegol.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a Chadeirydd y Pwyllgor Cyllid er gwybodaeth.

Yn gywir

M. E. Morgan

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**ATODIAD A**

**BIL CAFFAEL Y GWASANAETH IECHYD (CYMRU) - YMATEB I GWESTIYNAU ODDI WRTH Y PWYLLGOR IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL, 9 MAWRTH 2023.**

***C1:***
***A fyddech cystal â darparu amserlen sy'n nodi cerrig milltir allweddol a'ch amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd o'r amserlenni sy'n gysylltiedig â'r Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd, rheoliadau a digwyddiadau cysylltiedig eraill, gan gynnwys:***

***a. Eich dealltwriaeth o pryd mae Bil Caffael Llywodraeth y DU yn debygol o gael Cydsyniad Brenhinol a dod i rym; pryd y disgwylir i Lywodraeth y DU gyhoeddi canlyniadau ei hymgynghoriad ar Gyfundrefn Dethol Darparwyr (PSR); a phryd y disgwylir i Lywodraeth y DU osod rheoliadau drafft i roi effaith i'r PSR gerbron y Senedd.***

Bil Caffael Llywodraeth y DU
Ar ôl iddo gael ei gyflwyno ym mis Mai 2022, mae Bil Caffael Llywodraeth y DU wedi cwblhau ei daith drwy Dŷ'r Arglwyddi ac mae bellach ar ei ffordd drwy Dŷ'r Cyffredin. Disgwylir iddo gael y Cydsyniad Brenhinol ar ddiwedd Gwanwyn 2023, ac ar ôl hynny, caiff is-ddeddfwriaeth ei gwneud i roi effaith i rai elfennau o'r Bil a'r gyfundrefn ehangach. Mae hyn yn golygu bod y Bil yn debygol o fod ar waith ar ddechrau 2024.

Cyfundrefn Dethol Darparwyr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC)
Mae DHSC a GIG Lloegr yn gweithio i sefydlu'r Drefn Dethol Darparwyr a byddant yn rhoi diweddariad ar gyflawni maes o law, gan gynnwys cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi cyn i'r rheoliadau gael eu gosod. Rhagwelir y rheoliadau, gyda DHSC yn cynghori rhanddeiliaid nad oes disgwyl i'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr gael ei defnyddio cyn Gorffennaf 2023 - gweler gwybodaeth ar y ddolen yma.

***b. Pryd ydych yn rhagweld y bydd yr ymgynghoriad 12 wythnos yr ydych wedi ymrwymo iddo yn digwydd.***

Ar hyn o bryd, y disgwyliad yw y cynhelir yr ymgynghoriad cyn gynted ag y bydd yn ymarferol, yn dilyn y Cydsyniad Brenhinol, yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Senedd. Byddai hynny'n golygu bod y cyfnod ymgynghori yn debygol o ddechrau yn yr Hydref. Er hynny, mae'r amseru hwn yn seiliedig ar weld y Rheoliadau terfynol a'r canllawiau ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr gan y DHSC yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, er mwyn ein galluogi i ddatblygu egwyddorion gweithredol ar gyfer Cymru, yr ydym yn bwriadu ymgynghori arnynt.

***c. Pryd ydych yn rhagweld gosod rheoliadau drafft a chyhoeddi canllawiau statudol o dan y Bil, a phryd ydych yn rhagweld y byddant yn dod i rym***
Ar wahân i'r rhagdybiaethau y bydd hynt lwyddiannus Bil Caffael Llywodraeth y DU a Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn llwyddiannus, a derbyn manylion y Gyfundrefn Dethol Darparwyr gan DHSC, rydym yn rhag-weld ymgynghori ar egwyddorion gweithredu trefn gaffael newydd ar gyfer y gwasanaeth iechyd i Gymru fel y nodir uchod yn C1(b). Rydym yn rhag-weld gosod rheoliadau ar ddechrau yn 2024 a byddant yn dod i rym yn y Gwanwyn 2024.
Nod y llinell amser arfaethedig hon yw cyd-fynd cyn belled â phosibl â newidiadau diwygio caffael ehangach o ganlyniad i Fil Caffael Llywodraeth y DU i leihau'r effaith weithredol ar gyfer yr 'awdurdodau perthnasol' a fydd yn rhoi'r cyfundrefnau caffael newydd ar waith.

**C2:**
***Crynodeb bras o'r dull yr ydych yn rhagweld y byddwch yn ei ddefnyddio yn eich ymgynghoriad 12 wythnos. Er enghraifft, a fydd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar addasrwydd PSR Llywodraeth y DU i'w gymhwyso yng Nghymru, ar yr egwyddorion a allai fod yn sail i drefniadau newydd yng Nghymru, neu ar reoliadau drafft penodol neu ganllawiau statudol drafft.***

Ein bwriad presennol yw cynnal ymgynghoriad cyhoeddus 12 wythnos ar egwyddorion gweithredol y gyfundrefn gaffael newydd, yn seiliedig ar sut bydd y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn gweithredu yn Lloegr ac a yw hwn yn ddull y dylem ei atgynhyrchu yng Nghymru i raddau mwy neu lai lle bo'n briodol.

Bydd canlyniad yr ymarfer ymgynghori yn llywio datblygu rheoliadau'r dyfodol a chanllawiau statudol (a gaiff eu datblygu mewn partneriaeth â GIG Cymru). O'r herwydd, nid ydym yn cynnig ymgynghori ar hyn o bryd ar fanylion rheoliadau Cymru a chanllawiau statudol.

**C3:**
***Yn eich sesiwn gyda'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar 6 Mawrth, cwestiynodd Cadeirydd y pwyllgor, Huw Irranca-Davies AS, y rhyngweithio rhwng Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020 a nwyddau sy'n gysylltiedig â gwasanaethau iechyd sy'n cael eu caffael yn dilyn rheoliadau a wnaed o dan bŵer 'creu' y Bil. Mewn ymateb, esboniodd un o'ch swyddogion mai safbwynt Llywodraeth Cymru yw pan fydd y Senedd yn deddfu mewn maes sydd heb ei gadw'n ôl, mae'n gwneud hynny'n rhydd o ofynion y Ddeddf. Fodd bynnag, mae'r amseru hwn yn seiliedig ar ôl gweld y Rheoliadau a'r canllawiau terfynol ar y Drefn Dewis Darparwyr gan y DHSC yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, er mwyn ein galluogi i ddatblygu egwyddorion gweithredol ar gyfer Cymru, y bwriadwn ymgynghori â hwy. A allwch chi ddarparu dadansoddiad pellach sy'n dangos sut a pham y mae Llywodraeth Cymru wedi dod i'r farn hon?***

Safbwynt Llywodraeth Cymru yw nad yw Ddeddf Marchnad Fewnol y DU yn effeithio ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd - h.y. nid yw'n atal y Senedd rhag gwahardd neu reoleiddio gwerthu amrywiaeth o nwyddau yng Nghymru, er enghraifft, oni bai bod yr un eitemau hefyd yn destun gwaharddiadau neu reoleiddio cyfatebol ledled y DU, neu am fod Llywodraeth y DU wedi cytuno i waharddiad penodol ar fater. Byddai cyflawni hyn, o gofio statws Deddf Llywodraeth Cymru 2006 fel statud cyfansoddiadol, yn gofyn am ddiwygio rhannau helaeth o gymhwysedd presennol y Senedd. Nid yw Deddf Marchnad Fewnol y DU yn gwneud hyn. Mae gwneud fel arall – i ddiwygio cymhwysedd trwy ymhlygiad – yn groes i'r egwyddor o gyfreithlondeb. Dyma pam na fydd y Bil ac unrhyw reoliadau yn y dyfodol yn ymgysylltu â Deddf Marchnad Fewnol y DU.

**Gwybodaeth atodol**

**Perthynas barhaus â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr**

Hoffwn achub y cyfle i amlinellu'r sefyllfa mewn perthynas â deialog flaenorol a deialog barhaus â DHSC ar gyflwyno'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr.
Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU y Cydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022 ac roedd y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â chaffael y gwasanaeth iechyd yn gymwys i Loegr yn unig. Bu rhyngweithio cyfyngedig rhwng DHSC a'm swyddogion innau ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr ar hyn o bryd wrth i bolisi DHSC gael ei ddatblygu, ac roedd gwerthfawrogiad cyfyngedig gan DHSC ar yr effaith weithredol ganfyddedig ar gyfer caffael yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Er hynny, wrth i bolisi gael ei ddatblygu ymhellach ac wrth i ryngweithio gynyddu, cydnabuwyd effaith bosibl y Gyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig ar gaffael yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. O ganlyniad, ym mis Gorffennaf 2022, ysgrifennais at Weinidog Iechyd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y pryd, Maria Caulfield AS, i fynegi fy awydd i ddeall yn well sut y byddai'r bwriad i gyflwyno'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr yn effeithio ar gaffael yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Pwysleisiais bwysigrwydd cryfhau'r berthynas bresennol rhwng ein swyddogion; parhau i ymgysylltu â'r mater a gofyn am weld rheoliadau drafft y Gyfundrefn Dethol Darparwyr ar y cyfle cyntaf.

Ers hynny mae fy swyddogion a'u cymheiriaid yn DHSC wedi meithrin perthynas waith ardderchog. Mae DHSC wedi cadw cysylltiad rheolaidd â'm swyddogion ar hynt y Gyfundrefn Dethol Darparwyr ac mae fy swyddogion wedi trafod cyflwyno'r Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru). Lle bo'n briodol gwneud hynny, mae DHSC wedi rhoi gwybodaeth ddrafft i'm swyddogion am gynigion ar gyfer Y Gyfundrefn Dethol Darparwyr, gan gynnwys gweld rheoliadau drafft, a rannwyd yn gyfrinachol yn gynnar yn eu datblygiad. Mae'r berthynas waith agos hon yn parhau ac rydym yn rhag-weld y bydd DHSC yn rhannu copïau o'r rheoliadau gorffenedig pan fyddant wedi'u cwblhau ac yn barod i'w gosod.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

**Julie Morgan AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Deputy Minister for Social Services**

**Lynne Nagle AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant**
**Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing**

Eitem 3.1

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

07 Mawrth 2023

Annwyl Russell,

Diolch am anfon adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol atom o'r enw *Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24.*

Gweler wedi'i atodi ein hymateb i argymhellion y pwyllgor.

Hoffem hefyd godi ambell i fater a nodwyd yn yr adroddiad. Yn gyntaf, byddwch yn ymwybodol bod templed bellach ar gael ar gyfer cynlluniau tymor canolig integredig, felly byddwn yn gallu cymharu byrddau iechyd a mesur cynnydd yn fwy cywir.

Yn ail, hoffem herio'r ffigur ar gyfer achosion o oedi wrth drosglwyddo i ofal ym mharagraff 23. Rydych yn dyfynnu erthygl gan y BBC, sy'n nodi mai 1,800 oedd y ffigur hwn ym mis Ionawr 2023 – rydym yn dadlau nad yw erioed wedi bod mor uchel â hynny.

Cafodd y casgliad misol o ddata ynghylch oedi wrth ryddhau o ysbytai ei atal ar ddechrau'r pandemig i leihau'r pwysau ar adnoddau staff y GIG. Roedd yn adnodd gwerthfawr a oedd yn ein helpu i nodi pwysau a thueddiadau yn y system gan ein galluogi i ganolbwyntio ar wella perfformiad, creu capasiti ychwanegol, a nodi meysydd o arferion gorau. Fodd bynnag, roedd pob bwrdd iechyd yn gallu penderfynu ar ei feini prawf ei hun ar y cyfan o ran beth yw oedi. Yna, cafodd hyn ei gymhwyso i'w ddata. O ganlyniad, nid oedd metrig cyson na chymaradwy ar gael ledled Cymru.

Mae swyddogion wedi gweithio'n agos gyda'r GIG a phartneriaid gwasanaethau cymdeithasol, gyda chefnogaeth Grŵp Arbenigol, i ddatblygu system adrodd newydd –

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

“Adrodd ar Lwybrau Gofal”. Bydd hon yn disodli’r system casglu data flaenorol ac yn cynnig data cywir, perthnasol a chyson o ran achosion o oedi wrth ryddhau o’r ysbyty. Bydd hyn yn ein helpu i wneud penderfyniad cliriach, nid yn unig o ran yr heriau y mae’r GIG a’r gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu, ond hefyd o ran pa ardaloedd daearyddol y mae angen y mwyaf o gymorth arnynt o ran lleoliad cleifion yn y system a beth yw eu hanghenion. Caiff y cyfnod treialu presennol ei gynnal tan ddiwedd mis Ebrill cyn cael ei ystyried ymhellach a chyn ei weithredu’n llawn.

Ar hyn o bryd mae data a gyhoeddir gan Stats Cymru ar gael yma: Crynodeb perfformiad a gweithgaredd y GIG: Rhagfyr 2022 ac Ionawr 2023 | LLYW.CYMRU (ewch i’r ail ddolen o dan yr is-deitl ‘Data’, ac yna tab 1a yn y daenlen excel). Rhain yw ein mesurau dros dro, sydd ar gael ar lefel Cymru gyfan yn unig, nes i'r system adrodd newydd fod yn gwbl weithredol. Mae'r data diweddaraf (a gyhoeddwyd ar 23 Chwefror 2023) yn dangos bod 1,000 o gleifion wedi wynebu oedi wrth gael eu rhyddhau o’r ysbyty ar 14 Chwefror 2023 o'i gymharu â 1,103 ar 10 Ionawr 2023.

Yn olaf, o ran y cyfeiriad ym mharagraff 30 lle mae'n dweud fy mod wedi gofyn i fyrddau iechyd glustnodi arian ar gyfer rhagsefydlu; nid yw hyn yn gywir. Mae cyllid yn cael ei gadw’n ganolog er mwyn archwilio beth ellir ei wneud yn y maes hwn.

Gobeithio bod yr esboniadau hyn yn ddefnyddiol.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

**Julie Morgan AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
Deputy Minister for Social Services

**Lynne Neagle AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
Deputy Minister for Mental Health and Wellbeing

# Ymateb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol o'r enw *Cyllideb drafft Llywodraeth Cymru 2023-24*

Mae ymateb manwl i bob un o'r argymhellion i'w weld isod.

**Argymhelliad 1**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau gyda byrddau iechyd am chwe blaenoriaeth y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2023-24. Dylai'r diweddariad gynnwys unrhyw bryder mae byrddau iechyd wedi ei godi gyda Gweinidogion, yn ogystal â manylion canllawiau pellach mae'r Gweinidogion wedi eu rhoi i fyrddau iechyd ar sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt liniaru unrhyw effaith ganlyniadol ar feysydd eraill.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae hwn yn gyfnod anodd o hyd i fyrddau iechyd, ac maent yn parhau i gynllunio mewn ffordd ddynamig er mwyn rheoli'r pwysau parhaus, yn ogystal â'r heriau ychwanegol a berir gan weithredu diwydiannol. Caiff cynlluniau eu cyflwyno ar ddiwedd mis Mawrth, a bydd fy swyddogion yn rhoi dadansoddiad o'r sefyllfa gyffredinol ar ôl eu hasesu'n fanwl.

Yn y cyfamser, mae trafodaethau'n mynd rhagddynt â byrddau iechyd drwy gyfarfodydd cynllunio a pherfformiad, ac rwy'n cyfarfod â'r Cadeiryddion er mwyn deall yr heriau sy'n cael eu rheoli.

Un o'r materion pwysicaf yw achosion o oedi cyn rhyddhau cleifion o ysbytai acíwt sydd wedi arwain at broblem sylweddol o ran capasiti gwelyau. Nid oes ateb syml i hyn, ond rwyf wedi ymrwymo i wneud rhagor, a gweithredu ymhellach ac yn gyflymach i gefnogi gwelliannau drwy weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol yn well.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 2**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Ar sail bod disgwyl ar hyn o bryd i benderfyniadau gweinidogol ar y Cynlluniau*

*Tymor Canolig Integredig gael eu gwneud ym mis Mai neu fis Mehefin 2023, dylai'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ysgrifennu atom erbyn diwedd Gorffennaf 2023 i ddarparu crynodeb o sut mae ei chwe blaenoriaeth wedi llywio Cynlluniau Tymor Canolig Integredig byrddau iechyd, a goblygiadau cyllidebol cysylltiedig o ran rhyddhau cyllid neu sicrhau effeithlonrwydd.*

**Ymateb: Derbyn**
Mae'n ofynnol i sefydliadau'r GIG gwblhau Templed Gweinidogol sy'n canolbwyntio ar y blaenoriaethau, gan ei gwneud yn haws i nodi'r pethau y gellir eu cyflawni, yn ogystal â chymharu sefydliadau a dangos y cynnydd a wneir ganddynt. Caiff crynodeb ei ddarparu pan fydd y broses asesu wedi ei chwblhau.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 3**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau pa mor hir mae hi'n disgwyl i'r canllawiau diwygiedig a gyhoeddwyd ar 30 Rhagfyr 2022 barhau i fod yn weithredol, sef y gall cleifion gael eu rhyddhau wrth aros am asesiad gofal cymdeithasol neu heb i becyn gofal fod yn ei le. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut a phryd y bydd y canllawiau'n cael eu hadolygu er mwyn sicrhau y gellir monitro ei effaith ar ddiogelwch cleifion.*

**Ymateb: Derbyn**
Roedd y llythyr cefnogaeth a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2022 ynghylch penderfyniadau i ryddhau cleifion o'r ysbyty, yn cefnogi'r canllawiau presennol ar ryddhau cleifion o'r ysbyty sydd eisoes ar gael yn y system. Mae hyn yn cynnwys y canllawiau ar y drefn orau ar gyfer llif cleifion drwy'r ysbyty a luniwyd mewn partneriaeth â staff clinigol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dilyn gwaith ymgynghori helaeth mewn ymateb uniongyrchol i'r pwysau eithriadol y mae ein GIG yn eu hwynebu'r gaeaf hwn. Mae dolenni i'r canllawiau hynny isod, er mwyn cyfeirio atynt yn hawdd:

- Chwe nod ar gyfer gofal brys a gofal mewn argyfwng, 2021-26 (llyw.cymru)
- Cyflawni'r canlyniadau a'r profiad gorau posibl i bobl yn yr ysbyty (gig.cymru)

Mae'r cyngor hefyd ar ben yr ohebiaeth a anfonwyd gan Lywodraeth Cymru ar bwysau'r system yng ngofal sylfaenol a gofal cymunedol ar ddiwedd y flwyddyn y llynedd. Nod y cyngor hwn yw helpu i leihau'r pwysau yn y system drwy gefnogi byrddau iechyd i ddefnyddio capasiti eu hysbytai yn y ffordd orau drwy weithio gydag awdurdodau lleol, y trydydd sector a theuluoedd i ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd diogel, fel rhan o'r broses gyfathrebu er mwyn sicrhau y gellir rhyddhau cleifion yn ddiogel.

Am fod y cyngor a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr yn ategu'r canllawiau y dylai'r GIG fod yn eu dilyn eisoes, bydd yn parhau ar waith hyd y gellir rhagweld.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 4**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn argymell ar y cyd bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru, yn ei hymatebion i'n hadroddiadau a bob chwe mis wedi hynny, ddarparu data i'r ddau Bwyllgor, wedi eu dadansoddi fesul bwrdd iechyd lleol, yn nodi:*

- *Amseroedd aros ar gyfer yr apwyntiad cyntaf gyda CAMHS*
- *Cyfran y bobl ifanc sy'n cael cynnig ail apwyntiad*
- *Yr amseroedd aros ar gyfer ail apwyntiad*

**Ymateb: Gwrthod**

Adroddir ar ddata ar apwyntiadau cyntaf gyda Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed Arbenigol (sCAMHS) bob mis eisoes, sy'n dangos naill ai canran y cleifion sy'n aros llai na 28 o ddiwrnodau am apwyntiad cyntaf, neu'r niferoedd gwirioneddol: Amseroedd aros am apwyntiad cyntaf (llyw.cymru).

Adroddir ar ddata ar Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol i bobl o dan 18 oed eisoes, sy'n dangos amseroedd aros am asesiadau ac amseroedd aros am ymyriadau therapiwtig: Rhan 1: Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (llyw.cymru).

Ni chesglir data ar ddata dilynol, ond rydym am gael rhagor o ddata ar waith dilynol gyda chleifion allanol fel rhan o'r gwaith ar y set ddata graidd iechyd meddwl, a byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor am y gwaith hwn maes o law.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 5**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru nodi'r cerrig milltir a'r amserlenni ar gyfer datblygu gwasanaeth '111 pwyswch 2 ar gyfer iechyd meddwl' a'r camau nesaf tuag at sefydlu uned i gleifion mewnol ar gyfer anhwylderau bwyta yng Nghymru.*

**Ymateb: Derbyn**
Mae Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi cynnal ymgynghoriad yn ddiweddar ar ei Strategaeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Arbenigol 2023-2028. Roedd hyn yn cynnwys ystyried datblygu gwasanaethau Anhwylderau Bwyta Arbenigol ar lefel drydyddol ar gyfer CAMHS ac Oedolion er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth. Caiff strategaeth y Pwyllgor ei chyhoeddi yn ystod y misoedd nesaf a byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor maes o law.

O ran 111, pwyswch 2 ar gyfer iechyd meddwl, mae byrddau iechyd yn gweithio tuag at sicrhau bod y gwasanaeth hwn ar gael 24/7 ledled Cymru erbyn diwedd mis Ebrill. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda eisoes wedi rhoi'r gwasanaeth ar waith ar sail 24/7. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn cynnal y gwasanaeth 15 awr y dydd, a byddant yn symud tuag at ei ddarparu 24/7 erbyn diwedd mis Ebrill. Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Addysgu Powys wrthi'n recriwtio ar gyfer y gwasanaeth a disgwylir y byddant yn lansio'r gwasanaeth ym mis Ebrill.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Argymhelliad 6**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru egluro pa rôl sydd gan Weinidogion, Gweithrediaeth y GIG a byrddau iechyd o ran datblygu, darparu ac arwain gweledigaeth tymor hwy ar gyfer trawsnewid gwasanaethau iechyd a buddsoddiadau cyfalaf. Dylai hefyd egluro sut bydd yn sicrhau bod Cynlluniau Tymor Canolig Integredig byrddau iechyd yn cyd-fynd â'r weledigaeth tymor hwy, a bod gweithio rhanbarthol wedi ei wreiddio o'u mewn.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Mae Cymru Iachach yn darparu'r dull cenedlaethol tymor hwy o ddarparu gwasanaethau yng Nghymru, ac mae'r rhan fwyaf o'r byrddau iechyd wedi datblygu eu strategaethau eu hunain, gan gysoni eu ffordd o weithio er mwyn sicrhau eu bod yn trawsnewid gwasanaethau at lefel leol. Mae byrddau iechyd yn atebol o hyd am ddarparu gwasanaethau i'w poblogaethau ac mae eu cynlluniau tymor canolig integredig yn darparu uchelgeisiau ac ymrwymiadau i ddatblygu'r dull strategol hwnnw dros dair blynedd, gan gynnwys eu blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi cyfalaf a gweithio rhanbarthol. Bydd Gweithrediaeth newydd y GIG yn darparu arweinyddiaeth gryfach, a bydd swyddogaeth cynllunio strategol ganddi a fydd yn helpu i lywio ac i gyfeirio gwaith cynllunio cenedlaethol a rhanbarthol.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**<u>Argymhelliad 7</u>**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth am sut mae'r cynlluniau ar gyfer dyraniadau cyfalaf yng nghyllideb ddrafft 2023-24 yn alinio â'r chwe blaenoriaeth a amlinellwyd gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei chanllawiau ar gyfer Cynlluniau Tymor Canolig Integredig 2023-24. Wrth wneud hynny, dylai nodi pa newidiadau (os o gwbl) a wnaed i ddyraniadau cyfalaf blaenorol neu gynlluniau gwario i adlewyrchu cyflwyno'r chwe blaenoriaeth yn ogystal â'r angen i fynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Caiff nifer o wahanol risgiau eu rheoli o hyd ledled y system. Ceir pwyslais cytbwys o hyd ar gyflawni yn erbyn y chwe blaenoriaeth a mynd i'r afael â'r ôl-groniad cynnal a chadw.

Mae'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023-24 yn cynnwys amrywiaeth eang o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar gyflawni yn erbyn y chwe maes blaenoriaeth yn ogystal â mynd i'r afael â'r ôl-groniad presennol o feysydd cynnal a chadw ar yr ystad. Bydd y cyllid a nodwyd ar gyfer y Gronfa Gyfalaf Integreiddio ac Ailgydbwyso yn parhau i ddatblygu cynlluniau a fydd yn cynnwys capasiti gofal cymdeithasol yn ogystal â datblygu canolfannau integredig a fydd yn helpu i sicrhau y gellir rhoi gofal yn nes at y cartref. Drwy ddatblygu'r canolfannau, bydd gwaith ar y safle yn parhau ar gyfer cynllun Gofal Sylfaenol Tredegar a chynllun Gofal Sylfaenol Dwyrain Casnewydd, yn ogystal â datblygu'r achosion busnes sy'n gysylltiedig â Cross Hands, Canolfan Iechyd Da Abertawe a Chonwy a Chyffordd Llandudno.

Yn sgil buddsoddiadau ledled Cymru mewn perthynas ag ardaloedd aros mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, bydd swyddogion yn parhau i gynnal trafodaethau â sefydliadau ynghylch gwaith cyfalaf yn y dyfodol er mwyn gwella profiad y claf yn yr ardaloedd prysur hyn.

Ymhlith y buddsoddiadau seilwaith sy'n gysylltiedig â Gofal a Gynlluniwyd ac Adfer y mae gwasanaethau endosgopi yn Ysbyty Brenhinol Gwent ac Ysbyty Llandochau. Bwriad caffael hen adeiladau British Airways yn Llantrisant yn ddiweddar oedd darparu adnodd canolog ar gyfer capasiti diagnostig a chapasiti theatr ledled y rhanbarth – daw'r manylion yn gliriach wrth i waith am y modelau clinigol ddatblygu. Mae trafodaethau tebyg yn mynd rhagddynt yn y Gogledd ynghylch cynigion ar gyfer capasiti orthopedeg a chapasiti theatr yno.

Drwy barhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau canser, gyda'r gwaith sy'n mynd rhagddo sy'n gysylltiedig â Chanolfan Ganser newydd Felindre, yn ogystal â datblygu canolfan Radiotherapi Ategol yn ysbyty Nevill Hall, bydd modd cynnig gwasanaethau yn nes at y cartref i lawer o drigolion.

Caiff arian ei fuddsoddi mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl o hyd gyda'r Rhaglen Gyfalaf, gan helpu bwrdd iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i ddatblygu'r Achos Busnes Llawn ar gyfer yr Uned Iechyd Meddwl i Oedolion a Phobl Hŷn yn Ysbyty Glan Clwyd.

O ystyried y gofynion o ran amser sy'n gysylltiedig â llunio a chaffael achosion busnes a chraffu arnynt, mae'r rhan fwyaf o'r cynlluniau wedi bod yn yr arfaeth ers cyn i'r Gweinidog gyhoeddi'r chwe blaenoriaeth. Yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd angen i sefydliadau'r GIG a Gweinidogion Cymru flaenoriaethu buddsoddiadau sy'n gysylltiedig â chyflawni yn erbyn y chwe blaenoriaeth.

Mae cynnal a chadw'r ystad bresennol yn faes buddsoddi pwysig o hyd, ar y cyd â chwe blaenoriaeth y Gweinidog. O ystyried oedran a chyflwr rhan helaeth o ystad y GIG, bydd angen buddsoddi swm mawr o arian cyfalaf bob blwyddyn yn barhaus. Ar gyfer 2023-24, bydd y buddsoddiad parhaus yn Llawr Gwaelod a Llawr Cyntaf Ysbyty'r Tywysog Siarl yn parhau, a bydd gwaith atal tân mewn nifer o ysbytai Hywel Dda yn mynd rhagddo o hyd. Er mwyn helpu i sicrhau bod cyllid yn cael ei dargedu at feysydd blaenoriaeth, mae'r Bwrdd Cynghori Cyllid Ystadau wedi cael ei ailsefydlu i dargedu gwaith yn uniongyrchol ar draws y meysydd tân, seilwaith a datgarboneiddio.

**Goblygiadau Ariannol** – Rhagwelir y bydd pwysau ariannol o ystyried amrediad y gwahanol gynlluniau yn y system ar ddechrau 2023-24.

**Argymhelliad 8**

*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'r dadansoddiad y mae wedi ei wneud o'r rhesymau pam mae staff yn dewis gweithio i asiantaethau yn hytrach na'r GIG, egluro pa gamau mae'n eu cymryd i leihau gwariant ar staff asiantaeth, ac ymrwymo i ddarparu diweddariadau bob chwarter blwyddyn i ni ar gynnydd o ran lleihau gwariant. Dylid darparu'r diweddariad chwarterol cyntaf erbyn diwedd mis Mehefin 2023.*

**Ymateb: Derbyn**

Ar y cyd â gwaith i ddefnyddio gweithlu craidd y GIG yn y ffordd orau bosibl, mae gwaith yn mynd rhagddo i ddeall pam y gwneir mwy o ddefnydd o staff asiantaeth, i liniaru hyn ac i fynd i'r afael ag ef.

Mae'n hysbys bod y pwysau ar weithlu craidd y GIG ac ar wasanaethau yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi golygu bod angen defnyddio'r adnodd hyblyg ac ychwanegol hwn, a chaiff camau eu cymryd eleni, yn unol â'r cynllun gweithredu ehangach ar gyfer gweithlu'r GIG, i ganolbwyntio ar weithlu mwy cynaliadwy yn y GIG yng Nghymru. Caiff y gwaith hwn ei ddatblygu a'i gyflawni mewn partneriaeth ag undebau llafur a chyflogwyr y GIG. Mae gwaith cychwynnol yn mynd rhagddo i

ddeall y rhesymau pam mae unigolion yn dewis gweithio i asiantaethau yn lle cael eu cyflogi'n barhaus yn y GIG, a bydd hyn yn parhau mewn partneriaeth gymdeithasol. Byddwn yn defnyddio'r gwaith hwn wrth lunio ein hatebion.

Rydym yn bwriadu cyhoeddi cylchlythyr diwygiedig cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf er mwyn pennu data sylfaenol ac adnewyddu ein fframwaith rheoli, ac wedyn byddwn yn ymgymryd â rhaglen weithredu i fynd i'r afael â'r achosion sydd wrth wraidd y symiau sy'n cael eu gwario ar asiantaethau. Bydd angen troedio'n ofalus i sicrhau bod capasiti yn ddigonol i gyflawni gwasanaethau diogel ac effeithiol, wrth i waith fynd rhagddo a fydd yn darparu gweithlu cynaliadwy a gwerth am arian yn y tymor canolig i'r tymor hwy.

Rydym yn cytuno y byddai'n ddefnyddiol cael adroddiadau ar gynnydd yn rheolaidd, a byddwn yn cynnwys hyn yn y gwaith.

**Goblygiadau Ariannol** – Bydd angen neilltuo amser staff yn Llywodraeth Cymru a'r GIG ar gyfer cwblhau'r gwaith er mwyn darparu ffocws ychwanegol. Gwneir arbedion dros amser, a chaiff hyn ei olrhain drwy'r rhaglen.

**<u>Argymhelliad 9</u>**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i roi diweddariadau bob chwe mis i ni ar:*
*(1) gwaith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol, a*
*(2) camau a gymerwyd i ddatblygu argymhellion y Grŵp Arbenigol ar ddatblygu gwasanaeth gofal cenedlaethol i Gymru. Dylid darparu'r diweddariadau cyntaf erbyn diwedd Mehefin 2023.*

**Ymateb: Derbyn**
Bydd Llywodraeth Cymru yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor bob chwe mis am y canlynol:

(1) gwaith y Fforwm Gwaith Teg Gofal Cymdeithasol,
(2) camau a gymerwyd i ddatblygu argymhellion y Grŵp Arbenigol ar ddatblygu gwasanaeth gofal cenedlaethol i Gymru.

Fel yr argymhellwyd, caiff y diweddariadau ysgrifenedig cyntaf eu cyflwyno erbyn diwedd mis Mehefin 2023.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**<u>Argymhelliad 10</u>**
*Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol*

*Yn ei hymateb i'n hadroddiad, dylai Llywodraeth Cymru roi sicrwydd pellach ynghylch sut bydd yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yng Nghymru yn cyflawni cynaliadwyedd ariannol a'r cydbwysedd o fewn cylch cynllunio tymor canolig integredig 2023-24 i 2025-26. Dylai hyn gynnwys amserlenni clir o ran lle mae Llywodraeth Cymru yn rhagweld y bydd pob bwrdd iechyd yn sicrhau cydbwysedd ariannol, a sut bydd cynnydd yn cael ei fonitro.*

**Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**
Mae'r cyfuniad o bwysau chwyddiant nas gwelwyd eu tebyg o'r blaen ac effaith y pandemig wedi rhoi pwysau sylweddau ar gyllid byrddau iechyd. Mae tri bwrdd iechyd bellach mewn lefelau uwch o uwchgyfeirio oherwydd eu sefyllfa ariannol, ac mae tri bwrdd iechyd arall hefyd yn rhagweld na fydd modd iddynt sicrhau alldro mantoledig ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2022-23. Yn y cyd-destun hwn, mae'n debygol na fydd modd i'r rhan fwyaf o fyrddau iechyd gyflwyno cynllun tymor canolig integredig wedi ei fantoli pan gaiff y cynlluniau hyn eu cyflwyno ddiwedd mis Mawrth. Mae angen gwneud gwaith i gwmpasu a datblygu cyfleoedd i wella effeithlonrwydd ac adfer sefydlogrwydd ariannol a'u rhoi ar waith. Gwneir hyn mewn partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac uwch-swyddogion y GIG. Byddwn yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf â'r Pwyllgor wrth i'r gwaith hwnnw fynd rhagddo.

**Goblygiadau Ariannol –** Dim

**Y Pwyllgor Cyllid**

—

**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig
Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai

8 Mawrth 2023

Annwyl Gadeiryddion y Pwyllgorau,

**Craffu ar y Gyllideb Ddrafft ar gyfer 2023-24: Tystiolaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru**

Yn ein hadroddiad sy'n craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, gwnaethom nifer o argymhellion yn ymwneud â gwella gosodiad y gyllideb. Gwnaethom hefyd gytuno i ymgynghori â'r Pwyllgorau ynghylch y ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ochr yn ochr â'i chynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft, gan ddod i'r casgliad a ganlyn:

> *"Casgliad 1. Rydym yn croesawu parodrwydd y Gweinidog i ystyried ffyrdd y gellir gwella dogfennaeth y gyllideb. Er ein bod wedi adlewyrchu ein barn uchod, mae'r Pwyllgor wedi penderfynu ymgynghori â phwyllgorau'r Senedd ar eu profiadau o graffu ar ddogfennaeth y gyllideb eleni a ffyrdd y gellir gwneud gwelliannau."*

O ganlyniad, gan ystyried y profiad o graffu ar y gyllideb eleni a'r nod o sicrhau gwelliannau i'r ddogfennaeth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Cyllideb Ddrafft 2024-25 a thu hwnt, byddai'n dda gennyf gael barn eich pwyllgorau mewn ymateb i'r cwestiwn a ganlyn:

**Pa welliannau yr hoffech eu gweld o ran y ddogfennaeth sy'n cyd-fynd â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru a thystiolaeth ysgrifenedig ddilynol gan y Gweinidog?**

Gofynnir i chi gyfeirio yn eich ymateb at ba mor brydlon a pha mor ddefnyddiol oedd unrhyw ddogfennaeth a/neu dystiolaeth a ddaeth i law, ac at safon y ddogfennaeth a/neu dystiolaeth hynny.

Byddem yn gwerthfawrogi cael ymatebion erbyn **dydd Gwener 28 Ebrill 2023**. Yna bydd eich safbwyntiau yn cael eu coladu a'u bwydo yn ôl i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol, i'w hystyried cyn y ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar Flaenoriaethau Cyllideb 2024-25, a fydd yn cael ei harwain gan y Pwyllgor Cyllid ac a gynhelir cyn toriad yr haf.

Yn gywir,

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

Russell George AS
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

09 Mawrth 2023

Annwyl Russell,

**Cyfiawnder data: y defnydd o ddata personol yn y GIG yng Nghymru**

Mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol yn cynnal ymchwiliad byr ar gyfiawnder data. Rydym wedi penodi cynghorwyr arbenigol yn ddiweddar, sef Dr Lina Dencik ac Isobel Rorison o Brifysgol Caerdydd i gynorthwyo'r Pwyllgor gyda'r gwaith hwn, felly roeddwn yn meddwl y byddai nawr yn gyfle amserol i amlinellu ein dull gweithredu o ran y gwaith yn y maes hwn. Mae'r ymchwiliad yn canolbwyntio ar y defnydd o ddata personol yn y GIG yng Nghymru, gan gynnwys sut y caiff data cleifion eu defnyddio a'u rhannu pan fydd rhagnodi electronig (e-ragnodi) yn cael ei gyflwyno. Mae ymchwiliad undydd wedi'i gynllunio ar gyfer 27 Mawrth 2023, pan fyddwn yn gofyn am dystiolaeth gan gynrychiolwyr o'r GIG, rhanddeiliaid ac academyddion.

Byddwn yn ystyried nifer o gwestiynau allweddol yn ystod yr ymchwiliad, ac mae rhestr lawn o'r cwestiynau ar gael ar dudalen yr ymchwiliad.

Er bod Sarah Murphy AS yn aelod o'n dau Bwyllgor, hoffem estyn cynnig i chi, ac unrhyw Aelodau eraill o'ch Pwyllgor hefyd, i fod yn bresennol yn y sesiynau tystiolaeth lafar. Os bydd unrhyw Aelod yn dymuno ymuno â ni ar 27 Mawrth 2023, cysylltwch â Thîm Clercio'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol fel y gellir gwneud trefniadau. Byddem hefyd yn hapus i rannu copi o'r papur ymchwil sy'n cael ei baratoi gan ein hymgynghorwyr arbenigol, ac i ysgrifennu atoch eto i amlinellu ein canfyddiadau ehangach cyn i'n hymchwiliad ddod i ben.



Senedd Cymru
Welsh Parliament

Ar ôl yr ymchwiliad undydd bydd y Pwyllgor yn nodi’r materion allweddol sy’n deillio o’r sesiwn dystiolaeth.

Yn gywir,



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol
Senedd Cymru

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

Eitem 3.4

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

—

**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHealth@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Eluned Morgan
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru

10 Mawrth 2023

Annwyl Eluned

Gwasanaethau endosgopi: ymchwiliad dilynol

Fel y gwyddoch, yn dilyn y diweddariad a roddwyd gennych ar 24 Awst 2022 ar y cynnydd a wnaed yn erbyn argymhellion ar gyfer gwasanaethau endosgopi yng Nghymru a wnaed yn 2019 gan Bwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon y Bumed Senedd, rydym wedi bod yn cynnal ymchwiliad dilynol byr i ystyried pa gamau pellach y gallai fod eu hangen i roi’r cynllun gweithredu endosgopi cenedlaethol ar waith, lleihau amseroedd aros, ac yn y pen draw gwella canlyniadau a chyfraddau goroesi cleifion.

Gwnaethom gytuno i ysgrifennu atoch i dynnu sylw at y materion allweddol sy'n codi o'r dystiolaeth yr ydym wedi'i chasglu drwy alwad gyffredinol am dystiolaeth ysgrifenedig a sesiynau tystiolaeth lafar gyda rhanddeiliaid allweddol ar 2 Chwefror 2023 a 15 Chwefror 2023, a gwneud nifer fach o argymhellion.

Canfu adroddiad Pwyllgor y Bumed Senedd ar wasanaethau endosgopi fod y capasiti endosgopi dan bwysau sylweddol cyn pandemig COVID-19. Mae'n amlwg o'n hymchwiliad dilynol, a'n gwaith ar yr ôl-groniad o ran amseroedd aros y GIG, bod y penderfyniad i atal materion nad ydynt yn rhai brys yn 2020 wedi arwain at ôl-groniad mwy o gleifion sy'n aros yn hirach am brofion diagnostig.

Rydym yn croesawu'r ffaith bod mesurau i gynyddu capasiti ac adfer yr ôl-groniad o gleifion sy'n aros am driniaeth endosgopi wedi cael rhywfaint o lwyddiant. Fodd bynnag, mae'n debygol bod llawer o'r gwelliant o ganlyniad i fentrau drud, tymor byr megis contractio gwaith ar sail mewnol ac ar sail



Senedd Cymru
Welsh Parliament

allanol. Y neges glir a glywsom gan randdeiliaid yw bod angen atebion mwy cynaliadwy. Rydym yn cytuno.

Byddem yn ddiolchgar o gael eich ymateb i'r argymhellion a nodir yn yr atodiad **erbyn 25 Ebrill 2023.**

Yn gywir

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad: Gwasanaethau endosgopi: cais am wybodaeth

Byddem yn ddiolchgar o gael ymateb ynglŷn â'r materion canlynol erbyn 25 Ebrill 2023.

Ysgogi newid

**1.** Mae'r dystiolaeth yn dangos bod yr hyn sydd angen ei wneud wedi bod yn glir ers peth amser i wella gwasanaethau endosgopi. Mae'r atebion yr un peth nawr ag yr oeddent cyn y pandemig. Fodd bynnag, rydym wedi clywed pryderon yn gyson am arafwch y newid, ac rydym wedi cael gwybod bod hyn yn cael ei achosi'n rhannol gan oedi wrth wneud penderfyniadau 'ar bob lefel'.[1]

**2.** Rydym wedi clywed bod amrywiaeth sylweddol ar draws byrddau iechyd, o ran gweithredu canllawiau cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a chyflawni nodau'r Rhaglen Endosgopi Genedlaethol.[2] Dywedodd tystion hefyd wrthym fod angen mwy o eglurder ynglŷn â strwythurau atebolrwydd, gan gynnwys rôl Gweithrediaeth newydd y GIG.[3]

**3.** Rydym yn cytuno bod angen mwy o eglurder ynglŷn â strwythurau atebolrwydd. Rydym yn nodi bod hwn yn fater sy'n berthnasol nid yn unig mewn perthynas â gwasanaethau endosgopi, ond hefyd yn ehangach ar draws y broses o ddarparu gwasanaethau iechyd a gweithredu amcanion, strategaethau a chynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Argymelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu rhagor o wybodaeth am sefydlu Gweithrediaeth y GIG. Dylai hyn gynnwys manylion ei threfniadau llywodraethu, ei rôl a'i chyfrifoldebau mewn perthynas â dwyn byrddau iechyd i gyfrif a sicrhau bod newid yn cael ei weithredu, a'r amserlenni ar gyfer ymgymryd â'r rolau a'r cyfrifoldebau hynny.

Y gweithlu

### Hyfforddiant

**4.** Mae'n glir o'r dystiolaeth mai capasiti'r gweithlu yw'r her fwyaf sy'n wynebu darparu gwasanaethau endosgopi ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.[4] Soniodd tystion wrthym am yr angen i sicrhau bod cyflenwad o staff i ymdrin â'r galw disgwyliedig am wasanaethau endosgopi, gan gynnwys colonosgopwyr sgrinio, nyrsys endosgopi a nyrsys clinigol endosgopi, yn ogystal â staff gweinyddol.[5]

[1] Cofnod y Trafodion [paragraff 279], 2 Chwefror 2023

[2] Cofnod y Trafodion [paragraff 272-274], 2 Chwefror 2023

[3] Cofnod y Trafodion [paragraff 294], 2 Chwefror 2023

[4] Cofnod y Trafodion [paragraff 35], 2 Chwefror 2023

[5] Cofnod y Trafodion [paragraff 14], 15 Chwefror 2023

**5.** Roedd pob un o'r tystion y clywsom dystiolaeth lafar ganddynt yn cefnogi datblygu academi hyfforddiant endosgopi clinigol fel ffordd gynaliadwy o gyflymu llwybrau hyfforddiant a gwella mynediad at hyfforddiant a'i ansawdd.[6] Rydym yn nodi bod cynllun gwella gwasanaethau canser newydd ar gyfer GIG Cymru 2023-2026 yn dweud y bydd Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn datblygu achos busnes ar gyfer academi endosgopi clinigol erbyn diwedd mis Mehefin 2023, a bydd yr academi'n cael ei gweithredu'n raddol i ddechrau yn 2023.[7] Gobeithiwn weld y gwaith hwn yn datblygu'n gyflym.

Argymelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru roi diweddariad i ni erbyn mis Gorffennaf 2023 am ddatblygu academi endosgopi clinigol, yn benodol er mwyn nodi a yw'r gwaith ar y trywydd iawn i fodloni'r amserlenni a ragwelwyd yng nghynllun gwella gwasanaethau canser ar gyfer GIG Cymru 2023-2026.

**Data am y gweithlu**

**6.** Cawsom dystiolaeth gymysg ynghylch argaeledd a chadernid data am y gweithlu endosgopi. Dywedodd yr Athro Sunil Dolwani, sy'n cynrychioli'r Rhaglen Endosgopi Genedlaethol:

> *"I wouldn't say we have perfect data, but we do have good enough data to model the [service and workforce] plans, going forward".*[8]

**7.** Fodd bynnag, nododd tystion eraill nad oedd data dibynadwy am y gweithlu ar gael yn eang.[9]

**8.** Rydym yn cytuno y byddai'n fuddiol sicrhau bod data'r gweithlu ar gael yn ehangach ac i'r cyhoedd, ac rydym wedi'n calonogi gan yr awgrym gan Dr John Green o Gymdeithas Gastroenteroleg ac Endosgopi Cymru bod y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol yn datblygu dangosfwrdd deinamig i wella argaeledd data ar draws y gweithlu endosgopi cyfan[10]

## Contractio ar sail mewnol ac ar sail allanol

**9.** Clywsom gan dystion am y defnydd o drefniadau contractio ar sail mewnol ac ar sail allanol i gynyddu capasiti endosgopi yn y tymor byr. Rydym yn rhannu'r pryderon a glywsom ynghylch y symiau a wariwyd ar gontractio gwaith ar sail mewnol ac ar sail allanol i gwmnïau preifat, a ddisgrifiwyd gan yr Athro Dolwani fel rhai 'hollol syfrdanol'.[11]

**10.** Er mwyn symud i ffwrdd o ddibynnu ar fesurau tymor byr i ymateb i'r galw megis contractio gwaith ar sail mewnol ac ar sail allanol, a thuag at sefyllfa fwy cynaliadwy o ran gweithlu a chapasiti,

---

[6] Cofnod y Trafodion [paragraffau 41-43, 15 Chwefror 2023

[7] Rhwydwaith Canser Cymru, Cynllun gwella gwasanaethau canser ar gyfer GIG Cymru 2023-2026, 31 Ionawr 2023

[8] Cofnod y Trafodion [paragraff 323], 2 Chwefror 2023

[9] Er enghraifft Cofnod y Trafodion [paragraff 35], 2 Chwefror 2023 a Chofnod y Trafodion [paragraff 10], 15 Chwefror 2023

[10] Cofnod y Trafodion [paragraff 14], 15 Chwefror 2023

[11] Cofnod y Trafodion [paragraff 306], 2 Chwefror 2023

bydd angen buddsoddiad, a hoffem ddeall mwy am sut y mae Llywodraeth Cymru, gan weithio gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys Gweithrediaeth y GIG, y Rhaglen Endosgopi Genedlaethol a byrddau iechyd, yn bwriadu cyflawni hyn.

Argymelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau fydd yn cael eu cymryd, a phryd, i symud gwasanaethau endosgopi o'r sefyllfa bresennol, sy'n dibynnu ar fesurau tymor byr fel contractio gwaith ar sail mewnol ac ar sail allanol i ymateb i'r galw, ac i ryddhau arian i fuddsoddi mewn gweithlu mwy cynaliadwy a datrysiadau o ran capasiti.

## Y rhaglen sgrinio coluddion

**11.** Cafodd y rhaglen sgrinio coluddion ei rhoi ar saib yn ystod misoedd cynnar y pandemig. Rydym yn cymeradwyo'r ymdrechion sylweddol a wnaed i adfer y rhaglen yn llwyddiannus erbyn mis Medi 2021.

**12.** Roedd yn gadarnhaol clywed gan dystion bod y nifer sy'n manteisio ar wahoddiadau i sgrinio am ganser y coluddyn wedi bod yn cynyddu, ond rydym yn pryderu bod anghydraddoldebau o ran y nifer sy'n manteisio yn parhau. Er enghraifft, dywedwyd wrthym fod dynion yn llai tebygol o fanteisio ar y cynnig na menywod, a bod nifer y bobl sy'n manteisio yn sylweddol is mewn ardaloedd mwy difreintiedig.[12]

**13.** Rydym yn croesawu mentrau i gynyddu nifer y bobl sy'n manteisio ar sgrinio, gan gynnwys llythyrau wedi'u cymeradwyo gan feddygon teulu, a'r gwaith y mae Sgrinio Coluddion Cymru'n ei wneud i wella profiad cleifion a nifer y bobl ag anableddau dysgu sy'n manteisio ar sgrinio.[13]

**14.** Bydd y galw ar gyfer colonosgopi sgrinio yn cynyddu wrth i'r rhaglen sgrinio coluddion ehangu o ran y trothwy oedran a sensitifrwydd prawf. Croesawodd rhanddeiliaid y dull graddol o ehangu'r rhaglen, a ddisgrifiwyd fel un sydd wedi'i gynllunio'n yn ofalus i osgoi gorlethu'r capasiti sgrinio presennol.[14]

**15.** Rydym yn cefnogi'r galwadau a wnaed gan rai o'r rhai a roddodd dystiolaeth i'n hymchwiliad i Gymru weithio tuag at fodloni argymhelliad Pwyllgor Sgrinio Cenedlaethol y DU i leihau sensitifrwydd profion FIT ymhellach i 20µg/g unwaith y bydd y gwaith a gynlluniwyd ar hyn o bryd i optimeiddio'r rhaglen sgrinio coluddion wedi'i gwblhau. Bydd hyn yn helpu i wella canlyniadau i fwy o gleifion, ac yn manteisio i'r eithaf ar gost-effeithiolrwydd y rhaglen. Mae'n amlwg y bydd sicrhau bod gennym ddigon o gapasiti endosgopi cynaliadwy yn y tymor hwy yn allweddol i gyflawni hyn.

## Gweithio cydgysylltiedig ar draws byrddau iechyd

[12] Cofnod y Trafodion [paragraff 65], 2 Chwefror 2023

[13] Cofnod y Trafodion [paragraff 145], 2 Chwefror 2023

[14] Cofnod y Trafodion [paragraff 298], 2 Chwefror 2023

**16.** Disgrifiodd tystion sut mae gwasanaethau a byrddau iechyd yn gweithredu'n rhy aml mewn siloes, a gwnaethant alw am weithio mwy cydgysylltiedig a mwy o weithio rhanbarthol i wella gwytnwch ar draws y system a gwneud defnydd mwy effeithlon o'r capasiti presennol.[15]

**17.** Roeddem yn arbennig o bryderus o glywed am yr heriau y gallai pobl eu hwynebu wrth weithio neu hyfforddi y tu allan i'r bwrdd iechyd y maent wedi'i leoli ynddo oherwydd polisïau adnoddau dynol amrywiol a chyfyngol ar draws gwahanol fyrddau iechyd.[16]

Argymelliad 4. Yn ei hymateb i'r llythyr hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa waith sy'n cael ei wneud i ddeall a mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n gysylltiedig ag amrywiadau neu bolisïau adnoddau dynol gor-gyfyngol a allai atal staff y GIG rhag gweithio neu hyfforddi mewn bwrdd iechyd heblaw'r bwrdd iechyd y maent wedi'i leoli ynddo. Os oes angen mwy o amser i ymateb, dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i roi'r wybodaeth hon erbyn mis Gorffennaf 2023.

## Hybiau cymunedol a rhanbarthol

**18.** Roedd cefnogaeth eang i ddatblygu hybiau cymunedol i wella capasiti diagnostig a mynediad cleifion, yn enwedig mewn perthynas â rhai o'r technolegau arloesol mwy newydd.[17] Fodd bynnag, pwysleisiodd rhanddeiliaid yn gwbl rhesymol fod endosgopi traddodiadol yn driniaeth fewnwthiol a all arwain at gymhlethdodau, a bod angen ystyried diogelwch darparu triniaethau o'r fath mewn hybiau cymunedol; er enghraifft trwy ddewis cleifion yn ofalus a sicrhau bod llwybrau a phrosesau clir ar waith.[18]

**19.** Clywsom hefyd am y manteision o ddatblygu hybiau diagnostig mwy, rhanbarthol lle mae endosgopi yn cael ei gydleoli â gwasanaethau delweddu a gwasanaethau diagnostig eraill.

## Achrediad y Grŵp Cynghori ar y Cyd ar Endosgopi Gastroberfeddol (JAG)

**20.** Er mwyn cyflawni achrediad JAG, rhaid i wasanaethau endosgopi gyrraedd 'safon ansawdd' penodedig. Mae hyn yn cynnwys meini prawf fel seilwaith, llwybrau, amseroldeb, data, cyfathrebu â chleifion, a phreifatrwydd ac urddas, ymhlith eraill. Roedd consensws ymhlith tystion bod angen gweithredu dull graddol, yn ogystal â darparu cymorth wedi'i dargedu ar gyfer gwasanaethau sy'n nes at sicrhau achrediad.

**21.** Rydym yn rhannu uchelgeisiau rhanddeiliaid i bob gwasanaeth endosgopi yng Nghymru gyflawni achrediad JAG. Roeddem yn bryderus, fodd bynnag, o glywed bod ansawdd gwael ystâd y

---

[15] Cofnod y Trafodion [paragraff 206-207], 2 Chwefror 2023

[16] Cofnod y Trafodion [paragraff 299], 2 Chwefror 2023

[17] Cofnod y Trafodion [paragraff 105], 15 Chwefror 2023

[18] Cofnod y Trafodion [paragraffau 107 a 109], 15 Chwefror 2023

GIG yn rhwystr sylweddol i rai gwasanaethau, yn enwedig yng nghyd-destun y cyllid cyfalaf cyfyngedig sydd ar gael yng nghyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023-24.[19]

## Arloesi

**22.** Clywsom y gallai datblygiadau newydd fel endosgopi capsiwl colon, endosgopi traws-drwynol a Cytosponge™ helpu i leihau'r galw ar wasanaethau endosgopi traddodiadol. Mae datblygiadau arloesol o'r fath hefyd yn llai mewnwthiol, ac efallai y bydd cleifion yn canfod eu bod yn haws eu goddef. Fodd bynnag, er y bydd mabwysiadu technolegau newydd yn ehangach yn dod â manteision, roedd tystion yn glir nad 'bwled arian' yw hwn ac ni fydd yn mynd i'r afael â’r problemau craidd o ran capasiti.[20]

**23.** Serch hynny, mae'n destun pryder clywed bod Cymru’n gallu bod yn gymharol araf i fabwysiadu arloesedd, ac mae’n amlwg y gellid gwella’r gwaith o edrych tua’r gorwel ar gyfer technolegau newydd. Pan ofynnwyd i’r tystion pam fod hyn yn wir, roedd y rhwystrau posibl a nodwyd ganddynt yn cynnwys diffyg arweiniad a diffyg capasiti.[21]

Argymelliad 5. Yn yr ymateb i’r llythyr hwn, dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau sy’n cael eu cymryd, a phryd, i arwain, annog a hwyluso’r defnydd o dechnolegau arloesol a ffyrdd o weithio mewn gwasanaethau endosgopi yng Nghymru.

## Iechyd a Gofal Digidol Cymru

**24.** Clywsom adroddiadau am 'dagfa' mewn Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) sy'n cyfrannu at oedi wrth weithredu llwybr atgyfeirio safonol ar gyfer endosgopi yng Nghymru. Dywedodd yr Athro Dolwani wrthym:

> *“Just to put this in perspective, we wanted some changes in the bowel screening information management system 10 years ago, and that still hasn't happened”.*[22]

**25.** Rydym yn deall bod Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn ymdrin â nifer o geisiadau o bob rhan o’r GIG lle mae angen newidiadau i system wybodeg Cymru gyfan, ond roedd yn destun pryder clywed y gallai oedi yn y rhan hon o’r system olygu cryn oedi cyn rhoi’r gwelliannau angenrheidiol i wasanaethau ar waith.

---

[19] Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2023-24, Chwefror 2023

[20] Cofnod y Trafodion [paragraff 149], 15 Chwefror 2023

[21] Cofnod y Trafodion [paragraff 280], 2 Chwefror 2023

[22] Cofnod y Trafodion [paragraff 352], 2 Chwefror 2023

**26.** Ar hyn o bryd rydym yn cynnal gwaith craffu ar y cyd ar Iechyd a Gofal Digidol Cymru gyda'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus, a byddwn yn adlewyrchu ymhellach ar y mater hwn fel rhan o'r gwaith hwnnw.

## Syndrom Lynch

**27.** Yn 2019, yn unol â chanllawiau NICE, ymrwymodd Cymru i brofi cleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser y coluddyn am y cyflwr genetig Syndrom Lynch. Nid yw'n glir o'r dystiolaeth a yw hyn yn digwydd fel mater o drefn. Deallwn fod gwaith archwilio wedi'i gynllunio mewn perthynas â hyn, ac rydym yn awyddus i weld y gwaith hwn yn cael ei ddatblygu cyn gynted â phosibl. Clywsom hefyd am yr angen i wella gwyliadwriaeth o bobl â Syndrom Lynch, a thrafodwyd â thystion pam y mae'n bwysig i bobl sy'n cael diagnosis o Syndrom Lynch gael cymorth priodol.

Argymelliad 6. Yn ei hymateb i'r llythyr hwn, dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth am y gofal cofleidiol a'r cymorth (gan gynnwys cymorth iechyd meddwl) sydd ar gael i bobl sydd wedi cael diagnosis o gyflyrau genetig fel Syndrom Lynch yng Nghymru. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am sut y caiff gofal a chymorth o'r fath eu teilwra i anghenion grwpiau penodol, er enghraifft menywod o oedran cael plant, pobl o gymunedau lleiafrifoedd ethnig, neu bobl anabl.

## Cyflyrau nad ydynt yn ganser

**28.** Pwysleisiodd rhanddeiliaid nad yw endosgopi yn ymwneud â chanser yn unig, ac nad yw canolbwyntio ar endosgopi yn unig fel elfen o lwybrau canser yn gwneud cyfiawnder ag ef.[23]

**29.** Rydym yn cytuno bod endosgopi yn chwarae rhan bwysig wrth wneud diagnosis a thrin cyflyrau eraill nad ydynt yn ganser megis clefyd llid y coluddyn. Mae'n hanfodol bod hyn yn cael ei gydnabod a'i adlewyrchu'n ddigonol ym mhenderfyniadau polisi a chyllid Llywodraeth Cymru.

[23] Cofnod y Trafodion [paragraff 370], 2 Chwefror 2023

**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**—**
**Legislation, Justice and Constitution Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddDCC@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddDCC
0300 200 6565
**—**
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.wales
senedd.wales/SeneddLJC
0300 200 6565

Eitem 3.5

Eluned Morgan AS
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

13 Mawrth 2023

Annwyl Eluned

**Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) – Tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

Diolch am ymddangos gerbron ein Pwyllgor ar 6 Mawrth i roi tystiolaeth ynghylch Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)..

Yn ystod y sesiwn, gwnaethom awgrymu eich bod yn ysgrifennu atom i roi rhagor o fanylion am rai o'r materion a drafodwyd.

Byddwn yn ddiolchgar felly i gael rhagor o fanylion cychwynnol am y materion a restrir yn yr Atodiad erbyn 23 Mawrth 2023. Byddwn hefyd yn ddiolchgar o gael unrhyw fanylion pellach y gallech eu darparu ar y meysydd hyn yn nes ymlaen yn ystod taith y Bil drwy'r broses ddeddfwriaethol ac wrth iddo gael ei weithredu, os caiff ei basio.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Yn gywir,

Huw Irranca-Davies
Cadeirydd



Senedd Cymru
Welsh Parliament

## Atodiad – Gwybodaeth ychwanegol y gofynnodd y Pwyllgor amdani

1. Yr amserlenni ar gyfer datblygu rheoliadau o dan y Bil i gyflwyno trefn gaffael ar wahân newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru, gan gynnwys cynnal ymgynghoriad a rhoi cyfleoedd i'r Senedd graffu ar y rheoliadau drafft a'r rheoliadau terfynol.

2. Wrth i'r rheoliadau gael eu datblygu, manylion am unrhyw rwystrau sy'n codi a allai amharu ar allu'r Senedd i graffu arnynt o fewn terfynau amser penodedig.

3. Enghreifftiau ychwanegol o 'gaffaeliadau cymysg' ('mixed procurements') ar gyfer nwyddau a gwasanaethau gofal iechyd, y bydd canllawiau statudol ar eu cyfer yn nodi pa drefn gaffael sy'n berthnasol iddynt: naill ai'r rheolau a ddarperir gan Fil Caffael Llywodraeth y DU neu'r rheolau a ddarperir gan reoliadau sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn.

**Eluned Morgan AS/MS**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad
Senedd Cymru

24 Mawrth 2023

Annwyl Huw,

Diolch ichi am eich llythyr a'r cwestiynau a ofynnwyd gan eich Pwyllgor yn ymwneud â Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru). Rwy’n falch o roi fy ymateb, sydd wedi’i amgáu yn Atodiad A.

Yn eich llythyr, fe wnaethoch hefyd gynnig y cyfle i ddarparu tystiolaeth ysgrifenedig atodol mewn perthynas â'r Bil ac rwyf hefyd wedi cael ceisiadau tebyg gan Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyllid. Felly, rwyf wedi darparu gwybodaeth ychwanegol yn Atodiad A i gefnogi'r tri Phwyllgor gyda’r broses o graffu'r Bil.

Hyderaf fod hyn yn ateb eich cwestiynau. Fodd bynnag, os oes gennych gwestiynau pellach neu feysydd pellach sydd angen eglurhad, mae fy swyddogion a minnau'n hapus i gynnig tystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol, neu ddarparu sesiwn friffio technegol.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyllid.

Yn gywir,

**Eluned Morgan AS/MS**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

**ATODIAD A**

**BIL CAFFAEL Y GWASANAETH IECHYD (CYMRU) - YMATEB I GWESTIYNAU GAN Y PWYLLGOR DEDDFWRIAETH, CYFIAWNDER A'R CYFANSODDIAD, LLYTHYR DYDDIEDIG 13 MAWRTH 2023**

***C1 - Yr amserlenni ar gyfer datblygu rheoliadau o dan y Bil i gyflwyno trefn gaffael ar wahân newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru, gan gynnwys cynnal ymgynghoriad a rhoi cyfleoedd i'r Senedd graffu ar y rheoliadau drafft a'r rheoliadau terfynol.***

Ar hyn o bryd ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Senedd, disgwylir i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol ym mis Awst.

Wedi iddo gael Cydsyniad Brenhinol, bwriedir cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am 12 wythnos gan ddechrau cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Mae'n debygol o ddechrau yn gynnar yn yr Hydref. Fodd bynnag, mae'r amseru hwn yn amodol ar weld y Rheoliadau terfynol a'r canllawiau statudol ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod y misoedd nesaf.

Bydd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar egwyddorion gweithredol y gyfundrefn gaffael newydd ar gyfer Cymru, yn seiliedig ar sut bydd y Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn gweithredu yn Lloegr ac a yw hwn yn ddull y dylem ei atgynhyrchu yng Nghymru, i raddau mwy neu lai, lle bo'n briodol.

Bydd canlyniad yr ymarfer ymgynghori yn helpu i lywio datblygiad rheoliadau a chanllawiau statudol yn y dyfodol (a gaiff eu datblygu mewn partneriaeth â GIG Cymru). O'r herwydd, nid ydym yn cynnig ymgynghori ar hyn o bryd ar reoliadau a chanllawiau statudol gwirioneddol Cymru.

Rydym yn rhagweld gosod rheoliadau ar ddechrau 2024 gan ddilyn y 'weithdrefn gadarnhaol ddrafft' i roi cyfle i'r Senedd graffu ar y rheoliadau. Y nod yw y daw'r rheoliadau hynny i rym yn ystod Gwanwyn 2024, yn amodol ar gael cymeradwyaeth y Senedd.

Nod y llinell amser arfaethedig hon yw cyd-fynd cyn belled ag y bo modd â newidiadau diwygio caffael ehangach o ganlyniad i Fil Caffael Llywodraeth y DU i leihau'r effaith weithredol ar 'awdurdodau perthnasol' a fydd yn rhoi'r cyfundrefnau caffael newydd ar waith.

***C2 – Wrth i'r rheoliadau gael eu datblygu, manylion am unrhyw rwystrau sy'n codi a allai amharu ar allu'r Senedd i graffu arnynt o fewn terfynau amser penodedig.***

Mae'r llinellau amser a ddarperir yn yr ymateb i C1 yn seiliedig ar dybiaethau y bydd Bil Caffael Llywodraeth y DU yn llwyddo i gael Cydsyniad Brenhinol y Gwanwyn hwn ac y bydd Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn cael Cydsyniad Brenhinol ym mis Awst. Yn hanfodol, mae angen i ni weld manylion a rheoliadau terfynol y Gyfundrefn Dethol Darparwyr o'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystod yr ychydig fisoedd nesaf, i'n galluogi i ddatblygu egwyddorion gweithredol trefn gaffael newydd y gwasanaeth iechyd ar gyfer Cymru.

***C3 - Enghreifftiau ychwanegol o 'gaffaeliadau cymysg' ('mixed procurements') ar gyfer nwyddau a gwasanaethau gofal iechyd, y bydd canllawiau statudol ar eu cyfer yn nodi pa drefn gaffael sy'n berthnasol iddynt: naill ai'r rheolau a ddarperir gan Fil Caffael Llywodraeth y DU neu'r rheolau a ddarperir gan reoliadau sydd i'w gwneud o dan y Bil hwn.***

Mae'r diffiniad o 'wasanaethau iechyd' a geir yn y Bil yn ymwneud â 'gwasanaethau iechyd **'clinigol'**' fel y'u disgrifiwyd gan adrannau 1 a 3 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Bydd y gwasanaethau iechyd clinigol yn cael eu diffinio mewn rheoliadau yn y dyfodol gan godau Geirfa Gaffael Gyffredin ("codau CPV"). Er enghraifft, mae rhestr **ddrafft** o godau CPV arfaethedig o dan Gyfundrefn Dethol Darparwyr yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn Lloegr i'w gweld yma. Wedi inni weld y rhestr y cytunwyd arni o godau CPV yn rheoliadau terfynol yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol, bydd fy swyddogion a minnau'n ystyried a fyddwn yn dewis efelychu'r un codau CPV yn y rheoliadau arfaethedig yn y dyfodol.

Felly, nid yw'r Bil yn ymdrin â chaffael 'gwasanaethau nad ydynt yn glinigol' na nwyddau **ar wahân** (fel bwyd). Bydd nwyddau a gwasanaethau eraill ar wahân a gafodd eu caffael gan y sector iechyd yng Nghymru yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r rheoliadau caffael presennol, hyd nes bydd y rhain yn cael eu disodli gan y diwygiadau caffael ehangach o dan Fil Caffael Llywodraeth y DU sydd ar ddod.

Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) fodd bynnag yn gwneud darpariaeth ar gyfer caffael nwyddau neu wasanaethau eraill sydd wedi'u '**cysylltu â**' gwasanaethau iechyd clinigol (h.y. caffael cymysg). Bydd angen i ddarpariaethau ynghylch caffael cymysg fod yn gyson â rheolau a nodir mewn darpariaethau o dan reoliadau caffael a diwygiadau presennol o dan Fil Caffael Llywodraeth y DU sydd ar ddod.

Rhagwelir y bydd 'caffael cymysg' o fewn Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) yn berthnasol o fewn set ddiffiniedig o reolau ac o dan amgylchiadau penodol yn

unig. Er enghraifft, gallai hyn fod yn berthnasol i drefniadau lle mai'r prif destun dan sylw yw ‘gwasanaeth iechyd clinigol’ ac ni ellir gwahanu caffael y nwyddau neu'r gwasanaethau cysylltiedig, neu byddai caffael nwyddau a gwasanaethau o'r fath ar wahân yn cael effaith andwyol ar gyflawni'r ‘gwasanaeth iechyd clinigol’.

Mae’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn ystyried safbwynt tebyg ar ‘gaffael cymysg’ yn eu Cyfundrefn Dethol Darparwyr a’r amgylchiadau a chwmpas pan fydd rheolau o'r fath yn berthnasol. Mae gwybodaeth am ddull gweithredu’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyfer ymdrin â'r mater hwn wedi'i gynnwys yma ac fel y manylir yn nadl Tŷ'r Arglwyddi ar Fesur Caffael Llywodraeth y DU fis Tachwedd y llynedd[1].

I grynhoi, bydd fy swyddogion a minnau yn ystyried y manylion gweithredol ynghylch sut y bydd 'caffael cymysg' yn gweithio'n ymarferol fel rhan o ddatblygiad rheoliadau i'r dyfodol a chanllawiau cyfundrefn gaffael newydd y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

**GWYBODAETH ATODOL YCHWANEGOL – yn dilyn gohebiaeth gan Gadeiryddion y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyllid mewn perthynas â'r Bil.**

***Perthynas barhaus â'r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr***

Hoffwn achub y cyfle hwn i amlinellu'r sefyllfa’n ymwneud â deialog flaenorol a deialog barhaus â’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar gyflwyno'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr.

Cafodd Deddf Iechyd a Gofal Llywodraeth y DU Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2022 ac roedd y darpariaethau yn y Ddeddf sy'n ymwneud â chaffael y gwasanaeth iechyd yn gymwys i Loegr yn unig. Bu rhyngweithio cyfyngedig hyd yma rhwng yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'm swyddogion innau ar y Gyfundrefn Dethol Darparwyr wrth i bolisi’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol gael ei ddatblygu, a chyfyngedig oedd gwerthfawrogiad yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol o effaith weithredol ganfyddedig caffael y gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Fodd bynnag, wrth i bolisi gael ei ddatblygu ymhellach ac wrth i ryngweithio gynyddu, cydnabuwyd effaith bosibl y Gyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig ar gaffael y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. O ganlyniad, ym mis Gorffennaf 2022, ysgrifennais at Weinidog Iechyd Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar y pryd, Maria

[1] https://hansard.parliament.uk/Lords/2022-11-28/debates/916A209A-EB71-4F08-A080-5DE3DE3A5284/ProcurementBill(HL)#contribution-A83EB580-2EC1-4C3F-A08F-DE7F493BC143

Caulfield AS, i roi gwybod yr hoffwn gael gwell dealltwriaeth o sut y byddai'r bwriad i gyflwyno'r Gyfundrefn Dethol Darparwyr yn Lloegr yn effeithio ar gaffael yn y gwasanaeth iechyd yng Nghymru. Fe wnes i bwysleisio pwysigrwydd cryfhau'r berthynas bresennol rhwng ein swyddogion; parhau i ymgysylltu ar y mater hwn a gofyn am weld rheoliadau drafft y Gyfundrefn Dethol Darparwyr ar y cyfle cyntaf.

Ers hynny mae fy swyddogion a'u cymheiriaid yn yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi meithrin perthynas waith ardderchog. Mae’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'm swyddogion ynghylch hynt y Gyfundrefn Dethol Darparwyr ac mae fy swyddogion wedi trafod cyflwyno Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru). Lle bo'n briodol i wneud hynny, mae’r Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi rhoi gwybodaeth ddrafft i'm swyddogion ar y cynigion ar gyfer y Gyfundrefn Dethol Darparwyr, gan gynnwys gweld y rheoliadau drafft, a rannwyd yn gyfrinachol yn gynnar yn eu datblygiad. Mae'r berthynas waith agos hon yn parhau ac rydym yn rhagweld y bydd yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn rhannu copïau o'r rheoliadau gorffenedig pan fyddant wedi'u cwblhau ac yn barod i'w gosod.

***Gwybodaeth am y cyfrifiadau manwl mewn perthynas â'r cynnydd o £2.7 miliwn mewn costau staff i Gyrff y GIG a nodwyd yn Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil.***

Mae dadansoddiad o'r ffigurau dangosol ar gyfer costau staffio'r GIG a nodir ym mharagraff 93 a thabl 7 o Asesiad Effaith Rheoleiddiol y Bil wedi'i nodi isod:

| **Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)** | | | |
|---|---|---|---|
| **Braslun o Gostau Staffio GIG Cymru** | | | |
| | | | |
| Cyfanswm costau refeniw y flwyddyn ar gyfer 257 o staff caffael y GIG | | £ | 10,470,018 |
| Capasiti 10% o gostau refeniw 257 o staff caffael y GIG | *y flwyddyn* | £ | 1,047,002 |
| | *y mis* | £ | 87,250 |
| | | | |
| blwyddyn 1 2023-24 | *(7 mis @ £87,250)* | £ | 610,751 |
| blwyddyn 2 2024-25 | | £ | 1,047,002 |
| blwyddyn 3 2025-26 | | £ | 1,047,002 |
| | | | |
| **Cyfanswm** | | **£** | **2,704,755** |
| **Wedi’i dalgrynnu i’r £000 agosaf** | | **£** | **2,705,000** |

***Cadarnhad o’r tebygolrwydd y byddai Llywodraeth Cymru'n derbyn cyllid canlyniadol o ganlyniad i'r gwariant yn Lloegr.***

Ar hyn o bryd nid oes unrhyw awgrym y bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn arian canlyniadol o ganlyniad i wariant sy’n gysylltiedig â'r bwriad i gyflwyno'r Gyfundrefn

Dethol Darparwyr yn Lloegr. Os bydd y sefyllfa hon yn newid, byddaf yn rhoi diweddariad i bwyllgorau yn ystod proses graffu'r Bil.

Eitem 3.7

**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**
—
**Health and Social Care Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddIechyd@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddIechyd
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddLJC@senedd.cymru
senedd.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Y Gwir Anrhydeddus Steve Barclay AS
Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Llywodraeth y DU

16 Chwefror 2023

Annwyl Steve

Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru)

Mae Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd (Cymru) Llywodraeth Cymru wedi'i gyfeirio at Bwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol y Senedd i graffu ar ei egwyddorion cyffredinol.

Fel y gwyddoch, mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth ar gyfer:

- 'Pŵer datgymhwyso' i alluogi Gweinidogion Cymru i ddatgymhwyso darpariaethau Deddf Caffael 2023 Llywodraeth y DU (ar ôl ei basio) a fyddai fel arall yn gymwys i drefniadau caffael gwasanaethau iechyd GIG Cymru.
- 'Pŵer creu' yn y Bil i wneud rheoliadau i alluogi Gweinidogion Cymru i ddatblygu a gweithredu cyfundrefn gaffael newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd yng Nghymru drwy is-ddeddfwriaeth.

Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gyfer y Bil yn esbonio mai un o'r ffactorau sy'n ysgogi Bil Llywodraeth Cymru yw'r gwaith y mae Llywodraeth y DU yn ei wneud i ddiwygio'r broses o gaffael gwasanaethau iechyd yn Lloegr drwy ddatblygu'r Cyfundrefn Dethol Darparwyr o dan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022.

Byddem yn ddiolchgar o gael rhagor o wybodaeth am y canlynol:




Senedd Cymru
Welsh Parliament

1. Eich cynlluniau i gyflwyno Cyfundrefn Dethol Darparwyr ar gyfer caffael gwasanaethau iechyd yn Lloegr, gan gynnwys manylion am gwmpas a threfniadau rhagweledig y gyfundrefn newydd (er enghraifft pa wasanaethau iechyd fydd yn cael eu cynnwys neu eu heithrio) a'r amserlenni deddfwriaethol a gweithredu rhagweledig.

2. Unrhyw drafodaethau (gan gynnwys copïau o ohebiaeth berthnasol) ar lefel Weinidogol neu swyddogol rhwng Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ynghylch datblygu Cyfundrefn Dethol Darparwyr arfaethedig Llywodraeth y DU, Bil Caffael y Gwasanaeth Iechyd Llywodraeth Cymru neu is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Bil hwnnw. Dylai hyn gynnwys unrhyw drafodaethau am y posibilrwydd i bwerau llunio is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru ddatgymhwyso neu greu trefniadau caffael y gwasanaeth iechyd gael eu cynnwys ym Mil Caffael Llywodraeth y DU.

Gan y byddwn yn cymryd tystiolaeth lafar gan Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ddydd Iau 30 Mawrth, byddai'n ddefnyddiol cael eich ymateb **erbyn dydd Mercher 15 Mawrth 2023**.

Yn gywir



Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

Department of Health & Social Care

*From Lord Markham*
*Parliamentary Under-Secretary of State*

*39 Victoria Street*
*London*
*SW1H 0EU*

Russell George MS
Chair of the Senedd Health and Social Care Committee
By email to:
SeneddHealth@senedd.wales

22 March 2023

Dear Russell,

Thank you for your letter dated 16 February 2023 to the Secretary of State for Health and Social Care. As the lead minister for the Provider Selection Regime (PSR) policy, the Secretary of State has asked me to respond on his behalf.

Our plans to establish the PSR in England were set out in the 'Preview' document which UK Government published online last year as part of a consultation. We have not published the response to that consultation yet but will do so ahead of the laying of the PSR regulations before the UK Parliament.

I can confirm that officials from Welsh Government and UK Government have discussed both the PSR and Welsh Government's introduction of the Health Service Procurement (Wales) Bill. Additionally, Minister Caulfield and Minister Morgan corresponded on the PSR most recently this summer and agreed for Welsh and UK Government to continue to work together on the outcomes of the Health and Care Act 2022 – including the delivery of the PSR. To this end UK Government agreed to share the draft regulations for the PSR with Welsh Government to assist Welsh Government in their assessment of the policy.

The UK Government has shared the draft regulations with the Welsh Government. However, these regulations were still in development and were shared in confidence. At this time, UK Government in partnership with NHS England is preparing its final draft of the regulations which will set out the detail of the PSR. We plan to lay the regulations for the PSR in UK Parliament once we have a final draft ready to lay.

The date at which the regulations are laid will also inform our final planned target date to commence the PSR in England. The regulations will be subject to the affirmative parliamentary process before they can come into force.

With my very best wishes,

**LORD MARKHAM CBE**

# Eitem 6

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 7

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon